

# Flintshire Local Development Plan 2015 - 2030

## Strategaeth a Ffafrir Dogfen Ymgynghori Aseiad Effaith Iechyd, Cydraddoldebau ac Iaith Gymraeg o Strategaeth a Ffefrir y CDLI

Tachwedd 2017



# **Asesiad Effaith Iechyd, Cydraddoldebau ac Iaith Gymraeg o Strategaeth a Ffefrir y CDLI**

## **Cefndir**

Fel rhan o broses y CDLI rhaid cynnal asesiadau effaith parhaus wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu i sicrhau bod pob agwedd o'r gymuned yn cael ei hystyried. Mae'r Papur Cefndir hwn yn darparu cyd-destun polisi ar gyfer asesiadau effaith ac yn rhoi trosolwg byr o gam cyntaf Asesiad Effaith Integredig Sir y Fflint, sut mae hwn yn cyd-fynd â datblygu'r CDLI a sut mae'n cysylltu â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae Asesiad Effaith Integredig Sir y Fflint (ASEFf) yn cynnwys asesiadau Cydraddoldebau, Iaith Gymraeg and Iechyd ar gyfer y CDLI.

Mae'r Papur Cefndir yn cynnwys y materion canlynol:-

- i) Cyflwyniad i'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLI
- ii) Cyd-destun Polisi, canllaw perthnasol ym Mholisi Cynllunio Cymru, Nodiadau Cyngor Technegol/Llawlyfr ar gyfer CDLI .
- iii) Dull Asesiad Effaith Integredig i'w ddefnyddio gan Sir y Fflint.
- iv) Canfyddiadau cychwynnol
- v) Cysylltiadau ag Asesiad Effaith Integredig (AEI) sy'n cynnwys yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI. Mae'r AEI/Asesiad Amgylcheddol Strategol/ Arfarniad o Gynaliadwyedd (AEI/AAS/AoG) yn ddarn o waith ar wahân sy'n cael ei wneud gan ymgynghorwyr, Arcadis, ochr yn ochr â'r CDLI i sicrhau bod y CDLI yn cael ei asesu'n annibynnol.

## **1. Cyflwyniad**

1.2 Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (CDLI) yn darparu'r fframwaith cynaliadwyedd ar gyfer cynllunio defnydd tir yn y Sir hyd at 2030, ac mae'n llwyfan ar gyfer datblygu wedi hynny. Bydd yn llunio dyfodol Sir y Fflint yn ffisegol ac yn amgylcheddol, ac yn dylanwadu arno'n economaidd a chymdeithasol. Bydd yn ymateb i anghenion poblogaeth sy'n tyfu ac economi sy'n bwysig i'r rhanbarth, wrth ddarparu ar gyfer swyddi newydd, cartrefi, seilwaith a chyfleusterau i'r gymuned, ond rhaid gwneud hyn mewn ffordd sy'n sicrhau bod lles ei chymunedau'n cael ei gynnal, a bod effeithiau datblygu a defnyddio tir yn cael eu rheoli a'u lliniaru mewn ffordd gynaliadwy.

1.3 Mae Cyngor Sir y Fflint (CSFf) yn y broses o ddatblygu CDLI newydd, yn lle'r Cynllun Datblygu Unedol presennol a fabwysiadwyd. Yn ôl Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (y Ddeddf) rhaid i bob awdurdod cynllunio yng Nghymru baratoi CDLI. Bydd y CDLI yn weithredol o 2015 i 2030.

1.4 Y Strategaeth a Ffefrir yw'r brif ran gyntaf o GDLI Sir y Fflint ac mae'n bwysig gan ei bod yn dweud sut mae disgwyl i Sir y Fflint ddatblygu yn ystod y cyfnod hyd at 2030. Mae'n cynrychioli diwedd cyfnod o baratoi cynllun cyd-adneuo ac ymgysylltu, ac mae canlyniad y cyfnod hwn wedi cael dylanwad clir ar y Strategaeth a Ffefrir. Felly mae prif elfennau'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLI yn cynnwys:

- Darparu 7,645 o gartrefi newydd er mwyn sicrhau gofyniad o 6,950;
- Creu cyfleoedd i ddarparu 8 -10,000 o swyddi yn y Sir;

- Darparu 223 hectar o dir cyflogaeth; a
- Gweithredu Opsiwn Gofodol 5 – Dosbarthiad Cynaliadwy ynghyd â Dull wedi'i Fireinio tuag at Aneddiadau Gwledig gyda datblygiad wedi'i grynhoi yn y lleoliadau cynaliadwy canlynol:
- Prif Safleoedd Strategol y Porth Gogleddol, Glannau Dyfrdwy a Warren Hall, Brychdyn;
- Prif Ganolfannau Gwasanaeth, Canolfannau Gwasanaeth Lleol; a Phentrefi Cynaliadwy - yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau;
- Sicrhau datblygiad mewn dull cynaliadwy a sensitif ar sail angen yn y Pentrefi Diffiniedig a Heb eu Diffinio;

1.5 Polisiâu Strategol - Mae'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn amlinellu'r Polisiâu Strategol a fydd yn sail i'r fframwaith ar gyfer gweithredu a darparu CDLI Adnau'r Cyngor. Mae'r Polisiâu Strategol wedi'u grwpio'n unol â thair elfen Datblygu Cynaliadwy - Cymuned, Economi (sydd wedi'i isrannu'n dwf cyflogaeth a thwf tai) a'r Amgylchedd. Y pedair rhan o'r Strategaeth a Ffefrir sy'n diffinio Polisiâu Strategol y Cyngor felly yw:

- Creu Mannau a Chymunedau Cynaliadwy
- Cefnogi Economi Lewyrchus
- Diwallu Anghenion Tai
- Gwerthfawrogi'r Amgylchedd

1.6 Fel rhan o broses barhaus o arfarnu a phrofi'r CDLI mae'r Cyngor yn cynnal asesiad o gynaliadwyedd y Cynllun drwy Asesiad Effaith Integredig sy'n cynnwys Arfarniad Cynaliadwyedd (AoG) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Mae'r AEI/ AC/AAS yn asesiad sy'n cael ei gynnal gan ymgynghorwyr annibynnol arbenigol er mwyn arfarnu'r Cynllun sy'n datblygu yn erbyn set o feini prawf cynaliadwyedd (caiff agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd eu hystyried) er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy.

1.7 Fel rhan o ymchwilio a datblygu'r asesiadau Cydraddoldebau, Iaith Gymraeg ac Iechyd mae'r Cyngor wedi datblygu Asesiad Effaith Integredig (AEI), sydd wedi'i ddefnyddio i asesu'r Strategaeth a Ffefrir. Mae hwn wedi'i wneud ar y cyd â Swyddogion yn y Tîm Cynghori Polisi Strategol. Esbonnir hyn yn fanylach isod.

## 2. Cyd-destun Polisi Cynllunio

Mae'n ofyniad cyfreithiol i gynnal yr AC ym mhob cam wrth baratoi'r cynllun. Hefyd mae'n ofyniad statudol i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Mae'r adrannau canlynol yn esbonio cyd-destun y polisi cynllunio ar gyfer y tri math o asesiadau effaith.

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

2.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan ym mharagraff 2.1.9 '*Dylai paratoad y cynllun fod yn gynhwysol a chydabod gofynion pob sector o'r gymdeithas, gan gynnwys cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.*'

2.2 Llawlyfr ar gyfer CDLI (2il Argraffiad Awst 2015).

Mae'r Llawlyfr yn awgrymu y gellir cynnal AEA ac AEIG drwy'r Arfarniad Cynaliadwyedd, gyda pharagraff 3.2.3 yn datgan. '*Gall y broses arfarnu cynaliadwyedd integredig hon hefyd gwmpasu mathau eraill o waith arfarnu cynlluniau, er enghraifft dylid ystyried goblygiadau o ran cydraddoldeb, anabled a'r Gymraeg fel rhan o*

*effeithiau cymdeithasol y cynllun. Fodd bynnag, mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn wahanol i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd o ran gweithdrefn a dylid ei gynnal ar wahân.'*

Asesiadau o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG)

2.3 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) yn datgan bod y Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Cymru (paragraff 4.13.1) ac y dylai'r system cynllunio defnydd tir hefyd ystyried y Gymraeg a thrwy wneud hynny, gyfrannu at ei lles. (4.13.2)

2.4 Mae'n mynd rhagddi i ddweud," *Yn y cyfiawnhad rhesymedig dros eu cynlluniau datblygu, dylai pob awdurdod cynllunio lleol gynnwys datganiad am y modd y maent wedi ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r cynllun, ac am y cysylltiad rhwng unrhyw bolisiau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a pholisiau eraill y cynllun"* (4.13.3). Mae hefyd yn datgan " *Os oes angen asesiadau o'r effaith ar yr iaith, gellir cynnal asesiadau o'r fath yn achos cynigion ar gyfer datblygiadau mawr na chawsant eu dyrannu na'u rhagweld mewn cynllun datblygu ac sydd mewn ardaloedd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd penodol i'r iaith.* (4.13.5).

2.5 Er na nodir yn benodol bod angen i Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith gael ei gynnal fel rhan o'r Cynllun Datblygu, mae Polisi Cynllunio Cymru'n datgan bod yn rhaid ystyried anghenion a buddiannau iaith. Mae'r datganiad diweddarach yn awgrymu y dylid cynnal rhyw fath o asesiad pan wneir dyraniadau mewn ardaloedd sensitif.

2.6 Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 "Cynllunio a'r Iaith Gymraeg" (Hydref 2013) yn rhoi pwyslais mawr ar asesu effeithiau datblygiad ar y Gymraeg wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) ac y dylid cynnwys asesiad o'r effaith fel rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd y cynllun.

2.7 Mae cryn bwyslais yn Nodyn Cyngor Technegol 20 ar baratoi Cynllun Integredig Sengl (CIS) (a elwir bellach yn Asesiad o Les Lleol Sir y Fflint 2017) ac i sicrhau bod ei gasgliadau'n cael eu hadlewyrchu ym mholisiau defnydd tir y CDLI. Mae'r Cynllun Lles Lleol ar gyfer Sir y Fflint yn awgrymu bod angen gwneud mwy yn y Sir i helpu ac annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 hefyd yn nodi hyn ac yn awgrymu hybu'r iaith drwy gynnwys y defnydd o fesurau lliniaru i leihau effeithiau andwyol ar yr iaith. Yn nhermau'r hyn y gall Cynllunio ei wneud, cynghorir, y gellir hwyluso hyn drwy Gytundebau Adran 106 neu'r atodlen Ardoll Seilwaith Cymunedol.

2.8 Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 hefyd yn datgan ym mharagraff " 3.2 Arfarniad o Gynaliadwyedd 3.2.1 *Pan fo cynllun integredig sengl wedi nodi bod diogelu a/neu hybu'r Gymraeg yn flaenoriaeth i ardal, dylai'r CDLI ystyried y flaenoriaeth hon cyn belled â'i bod yn berthnasol i'r defnydd tir. Y mecanwaith ar gyfer gwneud yw'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG) a'r prosesau asesu safle cysylltiedig sy'n cael eu cynnal wrth baratoi'r cynllun. Os yw'n berthnasol i'r defnydd tir, dylai'r AC asesu tystiolaeth o effeithiau'r strategaeth ofodol, polisiau a dyraniadau ar y Gymraeg. Os oes tystiolaeth yn dangos bod effaith andwyol, o ystyried blaenoriaeth y cynllun integredig sengl, dylid nodi mesurau lliniaru yn y CDLI neu dylid diwygio'r strategaeth.*

3.2.2 *Os nad yw awdurdod lleol yn ystyried bod y Gymraeg yn bwysig mewn unrhyw ran neu rai rhannau o ardal yr awdurdod cynllunio lleol, dylai'r CDLI gynnwys cyfeiriad naill*

*ai at y dystiolaeth sy'n cefnogi diffyg polisïau ar ddefnydd tir a'r Gymraeg neu ddiffyg tystiolaeth sy'n cefnogi polisïau ar ddefnydd tir a'r Gymraeg."*

2.9 Mae'r Llawlyfr ar gyfer CDLI (3ydd Argraffiad Awst 2015) yn datgan ym mharagraff

2.8.1 'Cyflwynodd Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 *ddyletswydd ar sefydliadau i gynnwys Awdurdodau Cynllunio Lleol i gydymffurfio â'r safonau'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg*'.

2.10 Mae paragraff 3.2.3 yn datgan.' *Gall y broses arfarnu cynaliadwyedd integredig hon hefyd gwmpasu mathau eraill o waith arfarnu cynlluniau, er enghraifft dylid ystyried goblygiadau o ran cydraddoldeb, anabledd a'r Gymraeg fel rhan o effeithiau cymdeithasol y cynllun.*'

Tudalen 48 –*'Mae gwybodaeth arbennig o berthnasol i'w hystyried fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLI' – yn cynnwys Demograffeg Cymunedau Cymraeg.*'

2.11 Mae Cynllun Gofodol Cymru 2010, yn nodi'r rhan bwysig y mae'r Gymraeg yn ei chwarae yn ein cymunedau ac mae'n nodi ei bod yn bwysig hybu'r iaith. Mae'n datgan bod datblygu Ardal Cynllun Gofodol yn unol â gweledigaeth Iaith Pawb o greu cymunedau dwyieithog modern yn brif flaenoriaeth. Mae'r weledigaeth ar gyfer Gogledd-orllewin Cymru'n ceisio cynnal ymdeimlad o le a chynnal a hyrwyddo'r diwylliant, y dreftadaeth a'r iaith Gymraeg.

Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (AEI)

2.12 Er nad oes cyfeiriad uniongyrchol sy'n dweud bod angen AEI, mae iechyd a lles yn agwedd bwysig o unrhyw GDLI ac ystyrir ei fod yn arfer da cynnal AEI ar y CDLI ochr yn ochr â'r AEA a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd /Asesiad Amgylcheddol Strategol. Credir y bydd rheoliadau newydd yn y dyfodol agos, fydd yn ei gwneud yn ofynnol cynnal AEI.

2.13 Llawlyfr ar gyfer CDLI (3ydd Argraffiad Awst 2015)

Tudalen 48 –*'Mae gwybodaeth arbennig o berthnasol i'w hystyried fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLI' - yn cynnwys capasiti seilwaith ffisegol a chymdeithasol*

2.14 *Anghenion ac argaeledd tir; safleoedd posibl*

*Dylid cynnal trafodaethau gyda darparwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn cynnwys adran gwastraff trefol yr awdurdod ei hun, ac iechyd a chyfleustodau, i nodi a oes angen cynnwys safleoedd ar gyfer unrhyw gyfleusterau ychwanegol yn y CDLI. Er enghraifft, mae'n bosibl bod angen wedi'i nodi am fan agored ychwanegol mewn ardaloedd trefol neu safleoedd ar gyfer gofynion sipsiwn a theithwyr. Efallai bod anghenion eisoes wedi'u sefydlu drwy'r Cynllun Integredig Sengl / Cynllun Rheoli Parciau Cenedlaethol*

### **3. Asesiad Effaith Integredig Sir y Fflint**

3.1 Mae Asesiad Effaith Integredig Sir y Fflint yn ddull newydd a ddatblygwyd gan Gyngor Sir y Fflint i asesu effaith y strategaethau a'r polisïau arfaethedig ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, yr iaith Gymraeg ac iechyd a lles (yn cynnwys tlodi plant). Mae'r dull hwn yn asesu a yw cynllun neu bolisi'n bodloni anghenion a gofynion pob unigolyn sy'n cael ei effeithio ac os nad ydyw, bod yr effeithiau negyddol yn cael eu cydnabod a'u lleihau. Mae'r prif themâu sy'n cael eu cynnwys gan AEIFF yn dod o Gynllun Gwella Sir y Fflint a'r Cynllun Lles gyda'r nod o sicrhau dull cyson a chydlynol drwy'r Awdurdod.

3.2 Yn flaenorol byddai tri gwahanol asesiad wedi'u cynnal a chydabyddir bod dull wedi'i gyfuno'n ffordd fwy effeithiol o asesu. Bydd cyfuno'r gwahanol asesiadau nid yn unig yn cymryd llai o amser, ond hefyd yn sicrhau nad yw effeithiau negyddol a chadarnhaol yn cael eu hystyried ar eu pennau eu hunain, oherwydd yn aml mae cysylltiad rhyngddynt.

3.3 Cyfres o gwestiynau sydd yn yr asesiad, sy'n gysylltiedig â phob un o'r themâu a amlinellir isod. Pwrpas y cwestiynau yw ystyried a fydd y polisi neu'r ymarfer dan sylw'n cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral.

3.4 Os nodir effaith negyddol, bydd yr AEI yn ystyried pa gamau y gellir eu cymryd i liniaru'r effeithiau. Mae'r atebion i gwestiynau'r asesiad yn dangos lefel yr effaith y gallai'r cynllun neu bolisi ei chael ar y maes o ran effaith gadarnhaol, effaith niwtral ac effaith negyddol. Gall asesiad cyffredinol o'r atebion helpu i ddatblygu camau i liniaru neu leihau unrhyw effeithiau negyddol.

3.5 Prif ran yr Asesiad yw tabl yn amlygu'r 6 prif oblygiadau cydraddoldeb, iechyd, iaith Gymraeg ac amgylcheddol. Dyma'r prif benawdau:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn,
- Amgylcheddol a Bioamrywiaeth,
- Cydraddoldeb a Hawliau Dynol,
- Tlodi
- Iechyd
- Iaith Gymraeg.

3.6. Wrth ddatblygu'r fethodoleg sefydlwyd gweithgor bach gyda chynrychiolwyr mewnol ac allanol o:

- Polisi Cynllunio,
- Rheolwr Datblygu Cynllunio,
- Datblygu Economaidd,
- Ecoleg,
- Gwasanaethau Ynni,
- Rheoli Asedau Tai,
- Iechyd yr Amgylchedd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru,
- Mwynau a Gwastraff.

3.7 Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol gyda'r gweithgor i drafod bob cwestiwn a ph'un ai a oedd effaith gadarnhaol, niwtral neu negyddol yn debygol ar gyfer pob un o bolisiau'r Strategaeth a Ffefrir. Hefyd trafodwyd enghreifftiau o'r effeithiau tebygol a pha dystiolaeth oedd ar gael i'r awdurdod ar y gwahanol faterion. Yn olaf, ystyriwyd hefyd sut y gallai'r cynllun liniau'r effeithiau negyddol. Cydnabuwyd gan y grŵp fod y Strategaeth a Ffefrir yn fframwaith ar gyfer y CDLI ac felly mae nifer o'i pholisiau strategol yn lefel uchel ac nid yn rhai penodol. Wrth symud ymlaen at fersiwn adnewid o'r CDLI, bydd y polisiau'n fanylach a mwy penodol. Trwy bwysleisio'r materion nawr yn y

cam cynnar hwn, bydd yn bosibl ystyried yr holl faterion pan lunnir y polisiau'n llawn. Er ei bod yn ymddangos efallai nad yw polisiau'r strategaeth a ffefrir yn cynnwys digon o fanylion i ddeall yn llawn yr effeithiau, mae'n werthfawr cynnal yr AEI yn ystod y cam cynnar hwn i godi ymwybyddiaeth o'r materion pan ddaw'n bryd datblygu'r polisiau'n llawn.

3.8 Mae pob cwestiwn yn cynnwys blwch ticio i ddangos ar ba lefel oedd y cynllun yn effeithio ar bwnc penodol, crynodeb o'r effeithiau tebygol a sut y gallai'r cynllun sicrhau effaith gadarnhaol a lliniaru yn erbyn effeithiau negyddol. Mae'r Atodiad yn dangos y tabl cwestiynau a'r ymatebion.

#### **4. Cysylltiadau â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd**

4.1 Mae'r Asesiad Effaith Integredig a gynhwysir yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG) yn dilyn nifer o gamau penodedig ac allbynnau adrodd gorfodol. Mae'n ofyniad cyfreithiol a rhaid bodloni gofynion y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol. Cynhelir yr AEI/ AAS/AoG ym mhob cam o'r CDLI i sicrhau bod y cynllun yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Mae rhai o'r materion yr un fath ag AEIFF ond mae'r arfarniad wedi ei osod ar ffurf amcanion, dangosyddion a thargedau yn hytrach na'r effaith ar wahano grwpiau neu'r amgylchedd. Mae rhywfaint o orgyffwrdd ond mae AEIFF yn canolbwyntio mwy ar yr iaith Gymraeg, cydraddoldeb ac iechyd.

#### **5. Canfyddiadau Cychwynnol.**

5.1 Mae'r broses wedi bod yn ddefnyddiol i nodi'r ffaith bod y cynllun yn rhoi sylw i'r 6 phrif fater yn AEIFF. Prif egwyddor y cynllun yw hwyluso datblygiad defnydd tir cynaliadwy, all y system gynllunio ond hwyluso a dylanwadu ar ddatblygwyr a darparwyr gwasanaeth. All y broses gynllunio ond hwyluso datblygiad newydd. Yn yr un modd, all y CDLI ond hysbysu'r darparwyr gwasanaeth o ofynion tebygol yn y dyfodol ac nid yw'n darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen mewn gwirionedd. O ran y broses ymgynghori ar y CDLI, un mater y tynnwyd sylw ato yw bod angen ymgynghori â mwy ffocws gyda grwpiau penodol, yn arbennig pobl ifanc.

5.2 Mae AEIFF hefyd wedi amlygu'r anghydraddoldebau sy'n wynebu rhai grwpiau yn y gymuned ac mewn ardaloedd penodol o'r sir. Yn ôl tystiolaeth ystadegol, mae rhai ardaloedd difreintiedig yn y sir lle mae pobl yn fwy tebygol o ddiodef tlodi neu ddiweithdra neu'n cael trafferth cael mynediad at wasanaethau. Bydd y ddealltwriaeth well hon o faterion yn ddefnyddiol wrth lunio polisiau manylach yn y CDLI Adnau. Bydd y CDLI yn cyflawni nifer o'r prif faterion fel arwain datblygiad cynaliadwy, mynediad at gartrefi newydd a chartrefi fforddiadwy a chynyddu cyfleoedd cyflogaeth. Bydd y CDLI yn chwarae rhan mewn cynyddu cyfleoedd ar gyfer pobl mewn ardaloedd difreintiedig mewn ardaloedd trefol a gwledig. Yn gyffredinol, daethpwyd i'r casgliad bod y Strategaeth a Ffefrir yn gosod y fframwaith ar gyfer polisiau sydd â'r potensial i fod o fudd mawr i boblogaeth Sir y Fflint a chefnogi rhai o'r bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas.



5.3 Bydd cam nesaf AEIFf yn cynnwys ymgynghori ar yr asesiad a gynhaliwyd hyd yma trwy ymgynghori'n eang ac yn benodol ag aelodau'r Prif Fforwm Rhanddeiliaid. Mae'r Prif Fforwm Rhanddeiliaid yn cynnwys, ymysg eraill, yr holl brif gyrff statudol fel Ymddiriedolaeth Iechyd Betsi Cadwaladr, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad ar y cynllun drwy gydol y broses hyd yma. Pwrpas hyn yw sicrhau bod yr holl gyrff statudol a phartïon â diddordeb yn ymwybodol o AEIFf. Defnyddir yr wybodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o AEIFf i gyfrannu at gam nesaf y CDLI, Fersiwn Adnau Drafft y Cynllun. Gellir defnyddio tabl yr AEIFf i helpu i ddatblygu polisiau manylach ar gyfer y CDLI terfynol.

## Atodiad 1

### Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9 Tachwedd 2016

Yn ôl paragraff 2.1.10 o Fesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 rhaid i Awdurdodau Cynllunio gydymffurfio â'r safonau sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg. Mae a wnelo hyn yn bennaf â pharatoi gwybodaeth yn Gymraeg fel rhan o'r broses CDLI a'r ymgynghoriad.

Paragraff 2.4.4. Rhaid i'r arfarniad o gynaliadwyedd gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal yr awdurdod.

Paragraff "4.13. Cefnogi'r iaith Gymraeg

4.13.1 Mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chefnogi a'i hannog i ffynnu fel iaith nifer o gymunedau drwy Gymru gyfan. Mae *'Iaith Fyw; Iaith Byw'* yn amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni ei nod o gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

4.13.2 Mae'r nodau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015 yn cynnwys y nod o sicrhau 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Bydd dyfodol lles yr iaith drwy Gymru gyfan yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau, yn arbennig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd cadarn i gynnal cymunedau cynaliadwy ffyniannus. Dylai'r system cynllunio defnydd tir hefyd ystyried y Gymraeg a thrwy wneud hynny gall gyfrannu at ei les. Mae Deddf Cynllunio 2015 yn cynnwys darpariaeth yn ymwneud ag ystyried y Gymraeg wrth arfarnu cynlluniau datblygu ac wrth ddelio â cheisiadau am ganiatâd cynllunio.

4.13.3. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried effeithiau tebygol eu cynlluniau datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd o'u cynlluniau, a dylent ddiweddarau tystiolaeth. Dylai pob awdurdod cynllunio lleol gynnwys yn y cyfiawnhad rhesymedig o'u cynlluniau datblygu ddatganiad yn dweud sut mae anghenion a buddiannau'r Gymraeg wedi eu hystyried wrth baratoi'r cynllun, a sut mae unrhyw bolisïau'n gysylltiedig â'r Gymraeg yn rhyngweithio â pholisïau eraill y cynllun.

4.13.4 Dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio dosbarthu datblygiadau tai yn eang ac yn raddol gan ystyried gallu gwahanol ardaloedd a chymunedau i ymdopi â'r datblygiad heb erydu sefyllfa'r Gymraeg. Os yw'n bosibl, dylai'r system gynllunio geisio creu amodau sy'n annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Gallai polisïau priodol yn y cynllun datblygu o ran graddfa gyffredinol, lleoliad a chymunedau datblygiadau newydd helpu i gyflawni'r nod hwn. Gallai polisïau'n gysylltiedig â thair fforddiadwy hefyd fod o fudd. Fodd bynnag, ni ddylai polisïau gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol, ac ni ddylent geisio rheoli deiliadaeth tai ar sail ieithyddol.

4.13.5 Gellir rhoi sylw i ystyriaethau'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gan wneuthurwyr penderfyniadau cyn belled â'u bod yn berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio. Os oes angen, gellir cynnal asesiadau o'r effaith ar yr iaith o safbwynt

datblygiadau mawr heb eu dyrannu, neu a ragwelir gan, gynllun datblygu arfaethedig mewn ardaloedd sy'n arbennig o sensitif neu'n bwysig i'r iaith. Dylai unrhyw ardaloedd fel hyn gael eu diffinio'n glir yn y cynllun datblygu. Ni ddylai penderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd cynllunio gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu ac ni ddylid eu gwneud ar sail gallu ieithyddol unrhyw unigolyn/unigolion.

## Atodiad 2

# Nodyn Cyngor Technegol 20 a'r Iaith Gymraeg Hydref 2013

## 3.7 Ystyriaethau a pharatoi'r cynllun adnau

3.7.1 Y cynllun adnau yw'r cynllun y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn ystyried sy'n gadarn. Dylai'r wybodaeth sy'n ategu'r cynllun fod yn ddigon i egluro a chyfiawnhau cynnwys y cynllun.

3.7.2 Os nodwyd bod yr iaith Gymraeg yn rhan bwysig o wead cymdeithasol (mae'r geiriad ychydig yn wahanol ym Mholisi Cynllunio Cymru Paragraff 4.13 y fersiwn diweddaraf, sef argraffiad 9 Tachwedd 2016) rhan neu'r holl gymuned, dylai'r awdurdod cynllunio lleol adeiladu ar y gwaith cynharach o baratoi'r CDLI a sicrhau bod strategaeth, polisïau a dyraniadau tir y cynllun yn y CDLI adnau yn ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg. Dylai pob CDLI gynnwys cyfiawnhad rhesymedig byr o'r ystyriaeth a roddwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol i ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, yn cynnwys anghenion a buddiannau'r Gymraeg, a sut mae unrhyw bolisïau sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg yn rhyngweithio â pholisïau eraill y cynllun. Dylai'r adroddiad AoG gynnig tystiolaeth bellach ar sut y cyflawnwyd hyn, ac esboniad byr sut mae'r asesiad wedi dylanwadu ar y ddogfen derfynol.

3.7.3 Gall dosbarthiad twf economaidd hefyd effeithio ar gymeriad cymdeithasol a chynaliadwyedd cymunedau. Gallai'r Gymraeg hefyd elwa ar bolisïau i sicrhau bod lefel ac ystod ddigonol o gyfleoedd economaidd, yn cynnwys safleoedd ac eiddo, i gefnogi a datblygu cymunedau lleol. Mae cyngor pellach ar sut y gall y system gynllunio gefnogi cymunedau cynaliadwy trwy ddarparu amrywiaeth briodol o dai a chyfleoedd cyflogaeth yn cael ei ddarparu gan Bolisi Cynllunio Cymru a chanllawiau cynllunio cenedlaethol <sup>4</sup>.

3.7.4 Ni ddylai polisïau CDLI sy'n ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol. Ni ddylai polisïau cynllunio geisio rheoli deiliadaeth tai ar sail ieithyddol.

## Atodiad 3

# Llawlyfr ar gyfer CDLI 2il Argraffiad Awst 2015

### Paragraff 2.3.2

Pan fo defnydd o'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol cymuned, dylid ystyried anghenion a diddordebau'r iaith wrth lunio polisïau a amlinellir yn y cynllun (Polisi Cynllunio Cymru 4.13/ Nodyn Cyngor Technegol 20). - - mae'n ymddangos bod hwn wedi dyddio bellach gan nad yw wedi ei ddatgan ym Mharagraff 4.13 y fersiwn diweddaraf - argraffiad 9 Tachwedd 2016).

## 2.8 Defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg

2.8.1 Ym Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 cyflwynwyd dyletswydd ar sefydliadau i gynnwys Awdurdodau Cynllunio Lleol i gydymffurfio â safonau'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg. Mae'r Safonau'n sicrhau eglurder ynglŷn â'r gwasanaethau y dylid eu darparu yn Gymraeg ac mae'n gorfodi sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd resymol a chymesur. Mae nifer o'r Safonau'n debygol o fod yn berthnasol i bob cam o'r broses o baratoi a diwygio'r CDLI ond yn arbennig i'r ffordd y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn rhoi cyhoeddusrwydd i gynigion, yn ymgynghori â'r cyhoedd, yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gwneud sylwadau ac yn gwneud trefniadau ar gyfer cynnal archwiliadau. Dylai'r Cynllun Cynnwys y Gymuned nodi'r defnydd o'r Gymraeg wrth gyfathrebu. Mae cyfarfodydd cyn gwrandawriad yn darparu fforwm lle gall cwestiynau ymarferol yn ymwneud â'r ieithoedd a ddefnyddir mewn sesiynau gwrandawriad gael eu trafod fel y gall y rhai sy'n awyddus i gymryd rhan yn Gymraeg neu yn Saesneg wneud hynny'n effeithiol.

## Atodiad 4 Canllaw Iechyd a Lles – Cymerwyd o AAS/AoG CDLI Caerdydd

Iechyd a lles – Cynigion Polisi Cynllunio	Goblygiadau ar gyfer y CDLI
<p>Cymru</p> <p>Mae 'Dringo'n Uwch': Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005) yn gosod targedau, erbyn 2025,</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd Canran y bobl yng Nghymru sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn cynyddu o 36% i 60%</li> <li>• Bydd gan 95% o bobl yng Nghymru lwybr cyhoeddus neu lôn feicio o fewn taith gerdded o 10 munud</li> <li>• Ni ddylai unrhyw un fyw mwy na thaith gerdded o 6 munud (300metr) o'u man gwyrdd naturiol agosaf</li> <li>• Bydd gan holl staff y sector cyhoeddus a 75% o'r holl weithwyr eraill fynediad at gyfleusterau chwaraeon neu weithgareddau corfforol yn, neu o fewn taith gerdded o 10 munud o'u gweithle</li> </ul>	<p>Dylai'r CDLI ddarparu fframwaith ar gyfer chwaraeon a hamdden a gosod dull strategol ar gyfer datblygiadau o'r fath. Dylai</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ddiogelu mannau agored sydd o werth i hamdden, amwynder a/neu gadwraeth</li> <li>• Nodi safonau man agored a darpariaeth hamdden</li> <li>• Hybu mesurau i helpu cerdded a beicio</li> </ul> <p>Dylai'r CDLI gefnogi'r broses o gyflawni targedau 'Dringo'n Uwch. Bydd gan hyn oblygiadau o ran m mannau agored a llwybrau cerdded/llwybrau marchogaeth.</p>
<p>Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon a Mannau Agored (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009) Mae'n darparu canllawiau ar gynllunio ar gyfer chwaraeon, hamdden a mannau agored anffurfiol, yn ogystal â diogelu cyfleusterau a mannau agored presennol. Mae'n cynnwys canllawiau ar ddatblygu Aseidiadau Mannau Agored a safonau darpariaeth a'r cysylltiadau rhwng iechyd a lles, chwaraeon a hamdden a datblygiad cynaliadwy.</p>	<p>Dylai'r CDLI ddarparu fframwaith ar gyfer chwaraeon a hamdden a gosod dull strategol ar gyfer datblygiadau o'r fath. Dylai anelu at:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ddarparu 'safon meincnod' o, fesul 1000 o boblogaeth: 1.2 ha o dir ar gyfer caeau chwarae; 1.6 ha o dir ar gyfer holl chwaraeon awyr agored; 0.25ha ar gyfer man chwarae â darpariaeth ddynodedig i blant; 0.55ha ar gyfer man chwarae anffurfiol i blant; a 0.80 ha ar gyfer man chwarae i blant</li> <li>• Darparu 'ardaloedd lleol' ar gyfer chwarae neu hamdden anffurfiol o fewn 100 metr i gartrefi; 'ardaloedd wedi'u tirlunio neu â darpariaeth leol' o fewn 400 metr; ac 'ardaloedd â chyfarpar mewn cymdogaeth' o fewn 1000 metr</li> <li>• Diogelu ardaloedd mannau agored sydd o werth i hamdden, amwynder a/neu gadwraeth</li> </ul>
<p>Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn (Llywodraeth Cynulliad Cymru 1997) Mae'n darparu cyngor ar sut y gall y system gynllunio leihau effaith niweidiol sŵn heb osod cyfyngiadau afresymol ar ddatblygiadau neu ychwanegu'n annheg at gostau a beichiau gweinyddu busnes</p>	<p>Dylai polisiâu a chynigion yn y CDLI:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Leoli datblygiadau sy'n sensitif i sŵn oddi wrth ffynonellau sŵn sylweddol presennol neu arfaethedig</li> <li>• Lleoli datblygiadau sŵn posibl lle na fydd sŵn yn ystyriaeth mor bwysig</li> <li>• Hybu dyluniadau sy'n lleihau neu'n lliniaru cynhyrchu sŵn</li> </ul>

## Atodiad 5

### **Opsiynau Gofodol y CDLI – Cyfarfod Sicrwydd Ansawdd Asesiad Effaith Cydraddoldeb 21/11/16 10 am Ystafell Fideo Gynadledda**

Nodiadau ac Adborth

Yn bresennol

Stephanie Aldridge (SA), Fiona Mocko (FM), Vicky Weale (VW)

1. Cyflwyniad. Eglurodd yr opsiynau strategol, 6 opsiwn twf a'r 5 opsiwn gofodol. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn helpu i benderfynu ar Strategaeth a Ffefrir a gynhyrchir yn ystod Gwanwyn 2017 pan gynhelir ymgynghori pellach.  
Pwyntiau'n deillio o'r trafodaethau
2. Mae materion yn gysylltiedig â phobl anabl, cynllunio a dyluniad tai ac ystadau tai yn fater pwysig. Hefyd agoswydd tai newydd at wasanaethau hanfodol fel gwasanaethau gofal iechyd a chludiant cyhoeddus. Hefyd codwyd y mater o ddigon o lefydd parcio ar gyfer bathodynau glas, mewn canolfannau manwerthu a thref. Dylai'r cynllun gynnwys polisiâu i sicrhau bod digon o lefydd parcio i bobl anabl yn agos at y siopau a'r gwasanaethau.
3. Cynnydd mewn traffig oherwydd tai newydd a mwy o bobl yn symud i'r ardal lle mae tagfeydd eisoes ar y ffyrdd.
4. Bydd materion trawsrywiol yn berthnasol i ddileu trosedd, sicrhau diogelwch ar ddatblygiadau newydd ac mewn tai newydd.
5. Iaith Gymraeg - mae cyfieithiadau'n cael eu monitro felly mae angen i ni gadw cofnod o faint yr ydym yn ei wario ar gyfieithu er mwyn gallu asesu'r gost gyffredinol dros gyfnod o flwyddyn. Mae Safonau Iaith Gymraeg yn berthnasol i bob polisi newydd. FM i anfon at VW. VW i wirio bod yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)/ Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG) yn cynnwys y Gymraeg fel rhan o'r adran Ddiwylliannol a Threftadaeth.
6. Cynnydd yn nifer y gweithwyr o Ddwyrain Ewrop i rannau o'r Sir, goblygiadau i lefel twf.
7. Goblygiadau prosiect Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif i'r cynllun, y posibilrwydd o gau ysgolion yn Licswm, Rhos Helyg a Brynffordd, angen i swyddogion Polisi gyfarfod swyddogion Addysg.
8. Ymgynghori â Phobl Ifanc - sut gallwn ni gyrraedd at bobl ifanc - Cynghorau Ysgolion Emma Murphy, Mick Holt Gwasanaeth Ieuentid, a gallai Alison Thomas helmu.

<b>Asesiad effaith integredig</b>					
Strategaeth Ddewisol CDLI					
<b>Confensiynau Hawliau Plentyn Y Cenhedloedd Unedig</b>					
<b>Pa effeithiau posib a gwirioneddol fydd y cais hwn yn ei gael ar hawliau plant i</b>	<b>Effaith</b>	<b>Negyddol</b>	<b>Niwtral</b>	<b>Disgrifio'r effaith a'r dystiolaeth</b>	<b>Camau Lliniaru</b>
	<b>Cadarn haol</b>			<b>Tystiolaeth</b> – Cynllun Gwella Sir Y Fflint 2016 – 2017, Asesiad Lles Sir y Fflint 2017. Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2013. Adroddiad 'Is Wales Fairer' (2015) a gyhoeddwyd gan Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	



<p>Beidio cael eu gwahaniaethu</p>	<p>X</p>		<p>Bydd y cynllun yn sicrhau fod pob plentyn yn cael mynediad at addysg, tai a gwasanaethau cymunedol. Mae plant sipiwn a theithwyr yn cael eu cynnwys. Mae tlodi ac eithrio cymdeithasol yn effeithio plant a phobl ifanc yn fwy na grwpiau eraill. Mae mynediad at swyddi sy'n talu'n dda hefyd yn bwysig gan y bydd hyn yn effeithio gallu teulu i gael mynediad at dai ayb, felly bydd polisiau STR 7 ac 8 yn bwysig. Mae tlodi tanwydd hefyd yn effeithio'r grŵp hwn yn anghyfartal: mae mynediad at dai o ansawdd, fforddiadwy ac sy'n effeithlon o ran ynni hefyd yn bwysig wrth leihau digwyddiadau tlodi tanwydd, felly bydd polisi STR 14 yn bwysig. Mae hygyrchedd corfforol hefyd yn bwysig ar gyfer y grŵp oedran hwn gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus, felly bydd polisi STR 5 yn berthnasol. Lleolir pceddi o amddifadedd ar hyd llain yr arfordir gydag aneddiadau drwy'r ardal yn dioddef o dlodi i ryw raddau (Malc 2014). Mae'r strategaeth yn nodi nifer o aneddiadau sydd eisoes yn dioddef o amddifadedd fel prif</p>	<p>Polisi STR 6 Gwasanaethau Cyfleusterau a Seilwaith, STR12 Darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, STR7 Datblygu Economaidd, Menter a Chyflogaeth, STR8 Darpariaeth Tir Cyflogaeth STR14 Newid Hinsawdd a Diogelu'r Amgylchedd STR5 Cludiant a Hygyrchedd.</p>
------------------------------------	----------	--	---	--

				<p>ganolfannau gwasanaeth a fydd yn brif leoliad ar gyfer datblygiad tai newydd. Mae'n hanfodol fod y gwasanaethau angenrheidiol yn cyd-fynd â'r datblygiad tai a bod darpariaeth tai yn diwallu amrywiaeth o anghenion gan gynnwys tai fforddiadwy er mwyn sicrhau nad yw problemau presennol amddifadedd yn gwaethygu. Mae hefyd yn bwysig fod mynediad at ddarpariaeth gwaith yn cael ei gynnal neu ei wella yn yr ardaloedd hyn.</p>	
Lles Gorau'r plentyn	X			Fel yr uchod a'r isod.	

<p>Hawl i oresi a datblygu</p>	<p>X</p>		<p>Bydd y cynllun yn sicrhau ardaloedd chwarae a mannau gwyrdd newydd a diogelu rhai cyfredol. Mae plant a phobl ifanc yn llai tebygol o allu ymateb yn effeithiol i effeithiau ffactorau amgylcheddol fel llifogydd, ansawdd aer a sŵn ac maent yn fwy tebygol o fod angen mynediad i'r awyr agored fel rhan o'u datblygiad. Gall Arwain datblygiad newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy a mannau agored i'r ardaloedd hynny sy'n cael eu heffeithio llai gan ffactorau amgylcheddol o'r fath liniaru'r effaith ar blant a phobl ifanc, felly bydd polisi STR 14 yn bwysig. Gallai cefnogi cynlluniau a fyddai'n golygu gwelliannau amgylcheddol, er enghraifft gwarchod rhag llifogydd, hefyd helpu i liniaru'r effaith ar gymunedau presennol.</p>	<p>STR 13 Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig, Rhwydweithiau a Seilwaith Gwyrdd. STR14 Newid Hinsawdd a Diogelu'r Amgylchedd</p>
--------------------------------	----------	--	--	---

Yr hawl i gael eu clywed	X			Ymgynghoriad Cyffredinol ar y CDLI	Nid yw ymgynghori ar y CDLI yn targedu ysgolion ond gellid ceisio cyrraedd aelodau iau'r gymuned drwy'r Grŵp Gweithredu Ieuencid
Yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth	X				
Pa effeithiau posib a gwirioneddol fydd y cais hwn yn ei gael ar	Effaith	Disgrifio'r effaith a'r dystiolaeth			Camau Lliniaru

	<b>Cadarn haol</b>	<b>Negyddol</b>	<b>Niwtral</b>	<p>Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CSyFf 2000), Strategaeth Fframwaith Mannau Gwyrdd ar gyfer Sir y Fflint 2013, Strategaeth Mannau Agored Cyngor Sir y Fflint 2007, Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Seilwaith Gwyrdd Parc Arfordirol Sir y Fflint 2011. Rheoli Ansawdd Yr Aer Yn Lleol yng Nghymru 2017, Polisi Cynllunio a Sŵn a Chanllawiau ar gyfer Datblygiad Preswyl Newydd Canllawiau Arfer Proffesiynol 2017.</p>	
--	------------------------	-----------------	----------------	--	--

Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr	X	X	<p>Bydd datblygiad tai a datblygiad diwydiannol newydd yn cynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr, rhaid felly i ddatblygiad newydd gadw at Reoliadau Adeiladu a chanllawiau newydd ar effeithlonrwydd ynni ar adeiladu newydd er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol.</p> <p>Drwy greu datblygiad cynaliadwy yn agos at wasanaethau a chyfleustodau presennol y bwriad yw gostwng yr angen i deithio a dibynnu ar y car a thrwy hynny ostwng allyriadau nwyon. Gall disodli datblygiad presennol ac ailddefnyddio tir llwyd gael effaith gadarnhaol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy well technoleg sy'n llygru llai a thrwy adfer safleoedd llygredig. Gall datblygiad sy'n disodli'r angen am danwyddau ffosil mwy llygredig (e.e. nwy yn hytrach na glo), sy'n defnyddio mwy o dechnoleg effeithlon o ran ynni (gellid cynnwys dal carbon) neu sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy helpu i ostwng allyriadau tŷ gwydr. Bydd peidio gyrru gwastraff i safle tirlenwi hefyd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae polisi STR14 yn berthnasol, yn ogystal ag STR 15.</p>	<p>STR4 Egwyyddorion Datblygu a Chynllunio Cynaliadwy, STR 14 Newid Hinsawdd a Diogelu'r Amgylchedd, STR15 Rheoli Gwastraff</p>
-----------------------------------	---	---	--	---

Cynllunio ar gyfer newid hinsawdd yn y dyfodol	X		<p>Mae hyn yn ymwneud â lliniaru ond yn ymwneud ag addasu hefyd. Gyrru datblygiad newydd i ffwrdd oddi wrth orlifdir, sicrhau y gall datblygiad newydd ymdopi ag effeithiau newid hinsawdd drwy ddarparu gwanhad neu fesurau atal lifogydd eraill. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn ystyried newid hinsawdd yn ei bolisiau a'u ddsoraniadau, gan ystyried dulliau gwrthsefyll newid hinsawdd ar gyfer y dyfodol.</p>	<p>Polisi STR4 Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Polisi STR14 Newid Hinsawdd a Diogelu'r Amgylchedd, STR11 Darparu Safleoedd Tai Cynaliadwy</p>
--	---	--	--	---

<p>Llygredd: aer / dŵr / pridd / sŵn / dirgryniad ac allyriadau</p>	<p>X</p>	<p>X</p>	<p>Gall datblygiad newydd a mwy o ddefnydd o ffyrdd arwain at fwy o lygredd aer / sŵn ond gallai adfywio hen ddiwydiannau sy'n llygru olygu aer mwy glân hefyd. Hefyd mae cyfleoedd ar gyfer cyfraniadau datblygwyr er mwyn adfywio safleoedd llygreddig a fydd yn golygu amgylchedd glanach. Bydd polisiau yn y cynllun yn arwain tai newydd i ffwrdd o ardaloedd lle gwyddys bod llygredd yn niweidiol i iechyd gan ei fod yr un mor bwysig â sicrhau nad yw datblygiad newydd yn achosi niwed i ddatblygiad preswyl.</p>	<p>Polisi STR14 Newid Hinsawdd a Diogelu'r Amgylchedd, STR11 Darparu Safleoedd Tai Cynaliadwy</p>
---	----------	----------	---	---



<p>Gwarchod dyfroedd arfordirol a mewndirol</p>	<p>X</p>			<p>Mae'r dyfroedd arfordirol o amgylch Sir y Fflint ac Aber Afon Dyfrdwy wedi eu dynodi er mwyn eu gwarchod gan eu bod yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, bwriad Ramsar a'r polisi Ardal Gwarchodaeth Arbennig yn y cynllun yw gwarchod yr ardaloedd hyn rhag unrhyw ddatblygiad newydd. Mae pwysau datblygu mawr wedi bodoli ac yn dal i fodoli ar hyd ar arfordir ac mae'n debyg y bydd rhaid lleoli peth datblygiad yno, fodd bynnag bydd gyrru datblygiad newydd i ffwrdd oddi wrth y gorlifdir yn helpu i liniaru'r effaith ar ddyfroedd arfordirol a mewndirol.</p>	<p>STR 13 Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig, Rhwydweithiau a Seilwaith Gwyrdd, STR14 Newid Hinsawdd a Diogelu'r Amgylchedd.</p>
---	----------	--	--	--	--

<p>Gwella bioamrywiaeth</p>	<p>X</p>			<p>Mae'r cynllun yn ceisio diogelu ardaloedd arbennig o fioamrywiaeth a sicrhau fod lliniaru pwrpasol yn digwydd pan fydd datblygiadau newydd yn digwydd. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Sir y Fflint 1. Deddf Amgylchedd (Cymru) 2015  O dan Adran 6 Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016  2. Mae Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 , a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) yn gwarchod y safleoedd dynodedig hynny o fewn Sir y Fflint ( gan Gyfoeth Naturiol Cymru)  3. Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010</p>	<p>Mae Polisi STR4 Egwddorion Datblygu Cynaliadwy, STR13 Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig, Rhwydweithiau a Seilwaith Gwyrdd hefyd yn gofyn am * Ganiatâd Rheoliadau Cynefinoedd o ddefnydd tir er mwyn penderfynu os yw'r cynllun ar ei ben ei hun neu gyda chynlluniau neu brosiectau eraill yn cael effaith sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd neu safleoedd morol ar y môr Ewropeaidd.</p>
-----------------------------	----------	--	--	---	---

<p>Annog defnyddio adnoddau'n effeithlon (ynni, dŵr, deunyddiau a mwynau)</p>	<p>X</p>			<p>Mae polisiâu yn y cynllun yn annog mwy o ddefnyddio adnoddau'n effeithlon mewn unrhyw ddatblygiad newydd. Bydd y cynllun yn golygu datblygiad newydd a fydd yn defnyddio mwy o adnoddau. Sicrhau fod y datblygiad newydd yn cael ei adeiladu drwy ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy, y gellir eu haildefnyddio unwaith bydd bywyd buddiol y datblygiad wedi dod i ben.</p>	<p>Polisi STR4 Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy STR16 Cynllunio Strategol ar gyfer Mwynau STR14 Newid Hinsawdd a Diogelu'r Amgylchedd</p>
<p>Lleihau cynnyrch gwastraff a chynyddu ailgylchu, adfer ac ail ddefnyddio gwastraff</p>	<p>X</p>			<p>Mae'r CDLL yn ceisio hwyluso rheoli gwastraff yn gynaliadwy drwy sicrhau cyfleoedd i leihau cynhyrchu gwastraff a sicrhau fod y gwastraff yn cael ei waredu'n gynaliadwy wedi iddo gael ei gynhyrchu. Gellir cynhyrchu gwastraff yn ystod pob cam o ddatblygiad a bydd darparu mwy o dai a diwydiant yn cynyddu'r gwastraff fydd yn cael ei gynhyrchu. Mae'n debygol bydd y CDLL yn cael effaith gadarnhaol a negyddol o dan y categori hwn.</p>	<p>STR15 Rheoli Gwastraff, STR14 Newid Hinsawdd a Diogelu'r Amgylchedd</p>

<p>Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau cynaliadwy o gludiant</p>	<p>X</p>			<p>Mae'n egwyddor sylfaenol y dylai datblygu cynaliadwy fod yn sail i bolisi cynllunio. Bydd dyraniadau tai a chyflogaeth newydd yn cael eu lleoli yn agos at aneddiadau presennol lle mae cyfleusterau yn bodoli, mewn ymdrech i leihau'r angen i deithio. Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru 2009 – 2015. Cyd Gynllun Trafnidiaeth Lleol Gogledd Cymru. Mae tensiwn posib rhwng y categori hwn a'r angen i gynnal cymunedau gwledig ac o ganlyniad mae effaith gadarnhaol a negyddol (posib).</p>	<p>STR4 Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, STR5 Cludiant a Hygyrchedd, STR14 Newid Hinsawdd a Diogelu'r Amgylchedd, STR11 Darparu Safleoedd Tai Cynaliadwy</p>
<p>Gwella'r amgylchedd ffisegol: tai, mannau cyhoeddus, mynediad at ac ansawdd mannau gwyrdd.</p>	<p>X</p>			<p>Mae'r polisiau yn y cynllun yn darparu ar gyfer tai newydd ar safleoedd strategol ym Mhorth y Gogledd, Garden City a Warren Hall ger Brychdyn. Yn gyffredinol bydd datblygiad newydd yn creu tai newydd a mannau agored cyhoeddus wedi eu cynllunio yn dda. Gall cyfraniadau datblygwyr hefyd helpu i wella mannau gwyrdd cyfredol.</p>	<p>STR 4 Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, STR 13 Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig, Rhwydweithiau a Seilwaith Gwyrdd, STR 11 Darparu Safleoedd Tai Cynaliadwy.</p>

<p>Gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol a'r dreftadaeth archeolegol a diwylliannol</p>	<p>X</p>			<p>Un o brif amcanion y CDLI yw gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol. Mae polisiau yn y strategaeth ddewisol yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer polisiau mwy manwl i ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol yn y CDLI newydd.</p>	<p>STR4 Egwyyddorion Datblygu Cynaliadwy, STR13 Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig, Rhwydweithiau a Seilwaith Gwyrdd</p>
<p><b>Cydraddoldeb a Hawliau Dynol</b></p>					
<p><b>Pa effeithiau posib a gwirioneddol fydd y cais hwn yn ei gael ar y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da â phobl sydd â nodweddion a ddiogelir</b></p>	<p><b>Effaith</b></p>			<p><b>Disgrifio'r effaith a'r dystiolaeth</b></p>	<p><b>Camau Lliniaru</b></p>

	<p><b>Cadarn haol</b></p>	<p><b>Negyddol</b></p>	<p><b>Niwtral</b></p>	<p><b>Tystiolaeth</b> – Asesiad o Les Lleol ar gyfer Sir y Fflint 2017 Cynllun Gwella Sir y Fflint 2016 – 2017. TAN12 – Canllawiau a Dylunio ar Safleoedd a Dadansoddi Cydestun Adroddiad 'Is Wales Fairer?' (2015) 'The State of Equality and Human Rights and Equality issues in Wales - a research review' (2009) gan Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol</p>	
--	---------------------------	------------------------	-----------------------	--	--

Oedran		X	<p>Mae potensial i bob oed gael eu heffeithio gan y CDLI, o safbwynt lleoedd ysgolion, gofynion tai arbennig neu gyfleoedd gwaith. Fodd bynnag mae plant, pobl ifanc a phobl hŷn yn dioddef tlodi ac eithrio cymdeithasol yn waeth na grwpiau eraill. Maent hefyd yn fwy tebygol o ddiwynnu ar gludiant cyhoeddus a dioddef o dlodi tanwydd. Gall sicrhau fod darpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer tai fforddiadwy sy'n effeithlon o ran ynni ac sy'n addas i'w anghenion (h.y. tai am oes) ac sy'n agos at gyfleustodau (gan gynnwys manau agored) ac / neu gludiant cyhoeddus helpu i liniaru'r effaith ar y grwpiau hyn a hyd yn oed gael effaith gadarnhaol.</p>	STR6 Gwasanaethau Cyfleusterau a Seilwaith, STR2 Lleoliad Datblygiad
--------	--	---	---	--

Anabledd		X	<p>Bydd polisiau ar ddatblygiad a materion mynediad yn helpu i ddatrys effeithiau negyddol. Fodd bynnag mae pobl anabl yn llawer mwy tebygol o fod allan o waith o'i gymharu â grwpiau eraill ac yn fwy tebygol o ddibynnu ar gludiant cyhoeddus ('Equality Issues in Wales' (2009) Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol). Gallai sicrhau fod cyflogaeth wedi ei leoli'n dda ac yn hygyrch gael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn. Eto, mae tensiwn rhwng lliniaru unrhyw effeithiau negyddol o'r CDLI ar bobl anabl a chynnal cymunedau gwledig.</p>	<p>Nodyn rhif 13 Canllaw Cynllunio Atodol, Mynediad i Bawb, STR 5 Cludiant a Hygyrchedd.</p>
----------	--	---	---	--



Ailbennu rhywedd			X	<p>Wrth i gynydd gael ei wneud ar y CDLI, mae cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda'r Grŵp Sicrwydd Ansawdd EIA. Mae'r grŵp wedi awgrymu y bydd effaith niwtral ar faterion ailbennu rhywedd ar y cynllun defnydd tir. Gwnaed sylwadau mwy cyffredinol, gan awgrymu y byddai angen tai fforddiadwy, cymysgedd o fathau o dai, ac amlygwyd trosedd fel problem. Bydd y cynllun yn mynd i'r afael â throsedd drwy gynnwys polisiau ar ddiogelwch cymunedol yn y datblygiad tai newydd yn fersiwn Newydd y CDLI.</p>	<p>Nodyn TAN 12 Dylunio a Chanllawiau ar Safleoedd a Dadansoddiad Cyd-destun yn cynnwys diogelwch cymunedol. STR11 Darparu Safleoedd Tai Cynaliadwy</p>
Priodas a phartneriaeth sifil			X		
Beichiogrwydd a mamolaeth			X		

Hil			X	<p>Dylunio datblygiadau newydd gyda Diogelwch Cymunedol mewn golwg. Mae'r gyfradd o leiafrifoedd ethnig sy'n byw mewn tai o safon isel yn anghyfartal. Mae cyfraddau cyflogaeth yn is ar gyfer lleiafrifoedd ethnig nac ydynt ar gyfer pobl wyn: Mae lleiafrifoedd ethnig hefyd yn tueddu i ennill llai o gyflog yr awr, ac o ganlyniad mae lefelau uchel o dlodi yn bodoli ar gyfer lleiafrifoedd ethnig. Mae lleiafrifoedd ethnig yn tueddu i fod yn fwy dibynnol ar gludiant cyhoeddus. Mae mynediad at dai fforddiadwy o safon sydd wedi eu lleoli yn agos at gyflogaeth yn bwysig, felly. Eto, mae tensiwn rhwng hyn a'r angen i gynnal cymunedau gwledig.</p>	<p>STR4 Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a Dylunio, STR6 Gwasanaethau, Cyfleusterau a Seilwaith, STR12 Darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr</p>
-----	--	--	---	---	--

Crefydd a Chred			X	<p>Fel yr uchod ac i sicrhau mynediad at Lefydd Addoli, ystyriaeth ofalus o ran caniatâd cynllunio am lefydd addoli. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd i effaith crefydd ar ffactorau amrywiol fel tai, cludiant ayb. Mae tystiolaeth fod Mwslimiaid yn fwy tebygol o ddiodef gwahaniaethu yn y gwaith, fodd bynnag, dim ond sicrhau fod gan grwpiau o'r fath fynediad at waith all y CDLL ei wneud; deddfwriaeth cyflogaeth sy'n ymdrin â gwahaniaethu. Mae tystiolaeth hefyd fod grwpiau crefyddol yn fwy tebygol o ddiodef trosedd casineb.</p>	Fel yr uchod
-----------------	--	--	---	--	--------------

Rhyw		X		Fel yr uchod
	<p>Dylunio datblygiadau newydd gyda Diogelwch Cymunedol mewn golwg. Mae menywod yn llai tebygol o gael mynediad at gludiant preifat ac mae menywod sydd â phlant yn ei chael hi'n anodd defnyddio cludiant cyhoeddus. Mae menywod yn llai tebygol o fod yn economaidd weithgar ac mae'r rheiny sydd yn gweithio yn debygol o fod yn derbyn cyflog is. Gall y CDLI helpu i fynd i'r afael â hyn drwy ddarparu tai fforddiadwy mewn lleoliadau hygyrch yn agos at gludiant cyhoeddus a gwasanaethau / cyfleusterau cymunedol.</p>	X		
Tueddfryd rhywiol		X		
Grwpiau eraill		X		
Pa effeithiau posib a gwirioneddol fydd y cais hwn yn ei gael ar:				

Hyrwyddo cymunedau cydlynus			X	<p>Gallai gor-ddatblygu anheddiad gael effaith negyddol ar gymunedau presennol. Bydd y Cynllun yn sicrhau fod y datblygiad yn unol â maint yr anheddiad.</p> <p>Dylai cyfraniadau datblygwyr hefyd sicrhau lliniaru yn erbyn effeithiau negyddol unrhyw ddatblygiadau newydd er enghraifft cyfrannu at ysgolion a gwella ardaloedd chwarae presennol neu adeiladu rhai newydd. Aseiad o Les Lleol ar gyfer Sir y Fflint Ebrill 2017. Mae'r angen am dai fforddiadwy yn uwch ymysg grwpiau penodol gan gynnwys menywod, lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl hŷn.</p> <p>Gallai sicrhau fod darpariaeth yn cael ei wneud o fewn amrywiaeth o aneddiadau gwahanol a'i fod yn cael ei integreiddio gyda thair'r farchnad agored helpu i hyrwyddo cymunedau cydlynus.</p>	STR5 Cludiant a Hygyrchedd, STR6 Gwasanaethau, Cyfleusterau a Seilwaith, STR11 Darparu Safleoedd Tai Cynaliadwy
Hawliau Dynol	X			Fel yr uchod.	Fel yr uchod.

<p>Cyfrannu tuag at amcanion cydraddoldeb</p>	<p>X</p>		<p>Lleihau anghydraddoldebau iechyd, gweler isod. Helpu i leihau deiliannau addysgol anghyfartal – bydd y CDLI yn cynnwys polisiau i ofyn am gyfraniadau datblygwyr i dalu am leoedd ysgol pan fo'n berthnasol. Lleihau anghydraddoldeb cyflogaeth drwy sicrhau darpariaeth tir ar gyfer cyflogaeth a hybu twf economaidd. Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol drwy sicrhau fod cynlluniau Dylunio trosedd Allan neu ddiogelwch cymunedol yn cael eu defnyddio wrth gynllunio datblygiadau newydd. Lleihau anghydraddoldeb mewn cynrychiolaeth a llais drwy sicrhau fod ymgyngori ar y CDLI yn cynnwys pob agwedd o'r gymuned. Lleihau anghydraddoldebau mewn mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd – bwriad datblygu cynaliadwy yw sicrhau mai dim ond yr aneddiadau hynny sy'n gallu ymdopi â datblygiad newydd fydd yn tyfu. Lleihau anghydraddoldebau iechyd: Mae gan Sir y Fflint rai o'r ardaloedd mwyaf o amddifadedd o safbwynt</p>	<p>STR2 Lleoliad Datblygiad, STR6 Gwasanaethau Cyfleusterau a STR7 Datblygu Economaidd Menter a Chyflogaeth, STR8 Argaeledd Tir Cyflogaeth, STR11 Darparu Safleoedd Tai Cynaliadwy STR12 Darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr</p>
---	----------	--	---	---

					<p>yr amgylchedd ffisegol yn ôl MALIC 2014. Mae'r ardaloedd hyn yn cyd fynd â mathau eraill o amddifadedd ac maent ar hyd y llain arfordirol yn bennaf. Mae potensial y bydd arwain datblygiadau newydd i'r ardaloedd hyn yn gwneud problemau cyfredol yn waeth os na chant eu cynllunio yn ofalus, ond gallant hefyd gynnig cyfleoedd. Cyfyngir ar gapasiti rhai o'r aneddiadau hyn ar hyd yr arfordir gan berygl llifogydd ac felly ni fydd y cyfleoedd yn cael eu gwireddu, a bydd hynny o bosib yn gwneud yr anghydraddoldeb yn y Sir yn waeth. Bydd angen lliniaru mewn lleoliadau lle cynigir twf cyfyngedig er mwyn sicrhau y bydd aneddiadau yn elwa o gyfleoedd: Er enghraifft, gwella mynediad at gyflogaeth mewn aneddiadau cyfagos.</p>		

Iechyd	Effaith			Disgrifio'r effaith a'r dystiolaeth	Camau lliniaru / hyrwyddo cydraddoldeb
	Cadarn haol	Negyddol	Niwtral		
Pa effeithiau posib a gwirioneddol fydd y cais hwn yn ei gael ar:				<p><b>Tystiolaeth</b> – Aseiad Lles Sir y Fflint 2017, Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020, Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, 'Is Wales Fairer'. 'The State of Equality and Human Rights' 2015. Cynllun Gwella 2016 – 2017. Rheoli Ansawdd Yr Aer Yn Lleol yng Nghymru 2017, Polisi Cynllunio a Sŵn a Chanllawiau ar gyfer Datblygiad Preswyl Newydd Canllawiau Arfer Proffesiynol 2017.</p>	



Lleihau anghydraddoldebau iechyd	X		<p>Cyfleusterau annigonol o fewn y gymuned – gellid lleoli datblygiad tai newydd ger canolfan feddygol sy'n llawn, er enghraifft. Nod y strategaeth ofodol Strategaeth ddewisol yw lleoli datblygiad newydd mewn aneddiadau cynaliadwy lle bydd cyfleusterau cyfredol. Anghydraddoldebau iechyd yw gwahaniaethau rhwng pobl neu grwpiau oherwydd ffactorau cymdeithasol, daearyddol, biolegol neu ffactorau eraill. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn adnabod 8 maes gwahanol: incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad daearyddol at wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai. Nododd MALIC 2014 fod yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf yn Sir y Fflint wedi eu lleoli ar hyd yr arfordir ac ar gyfer y rhan fwyaf o'r meysydd mae'r patrwm hwn yn cael ei adlewyrchu, ar wahân i fynediad, lle nodwyd mai ardaloedd gwledig Sir y Fflint oedd y mwyaf amddifad o safbwynt mynediad at wasanaethau, yn arbennig Gronant, Trelawnyd, Gwaenysgor a rhannau o Gaerwys. Mae gan y CDLI rôl sylfaenol i'w</p>	<p>Sicrhau fod ymgynghori gyda'r Awdurdod Iechyd a'u bod yn llwyr ymwybodol o gynigion tai yn y dyfodol er mwyn sicrhau fod unrhyw ddiffygion yn cael eu datrys. Polisi STR6 Gwasanaethau Cyfleusterau a Seilwaith. STR12 Darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, STR5 Cludiant a Hygyrchedd, STR11 Darparu Lleoliadau Tai Cynaliadwy.</p>
----------------------------------	---	--	---	--

chwarae yn llawer o'r meysydd  
hyn: gallai arwain cyflogaeth  
newydd i feysydd sydd ar hyn o  
bryd yn profi amddifadedd leihau  
amddifadedd. Gallai arwain tai  
newydd i ffwrdd oddi wrth  
ardaloedd lle mae perygl llifogydd  
a diwydiant helpu wrth fynd i'r  
afael ag amddifadedd sy'n  
ymwneud a'r amgylchedd ffisegol.  
Gallai canolbwyntio datblygiad  
newydd ar hyd yr arfordir  
waethgu problemau mynediad ar  
gyfer ardaloedd mwy gwledig a  
dylid lliniaru hynny.

Hyrwyddo bywydau iach	X			<p>Darparu llwybrau teithio llesol o fewn datblygiad newydd, felly ychwanegu llwybrau beicio a cherdded hawdd drwy ddatblygiadau cyflogaeth a thai newydd. Sicrhau fod tai newydd yn cael eu lleoli yn agos at wasanaethau presennol er mwyn hyrwyddo cerdded at gyfleusterau yn hytrach na defnyddio'r car, sicrhau mynediad at fannau agored a chefn gwlad er mwyn hyrwyddo ffitrwydd.</p>	<p>STR13 Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig, Rhwydweithiau a Seilwaith Gwyrdd, STR14 Newid Hinsawdd a Diogelu'r Amgylchedd.</p>
-----------------------	---	--	--	--	---

<p>Gwella dewis ac ansawdd tai</p>	<p>X</p>		<p>Bydd y cynllun yn dyrannu tir ar gyfer tua 7000 o gartrefi newydd ar gyfer y Sir dros gyfnod o 15 mlynedd. Bydd yn rhaid i'r cartrefi hyn fod o safon fodern a bydd amrywiaeth o fathau o dai er mwyn diwallu amrywiol anghenion y gymuned. Mae MALIC 2014 yn nodi mai'r llain arfordirol sydd fwyaf amddifad o ran tai, yn arbennig gogledd-ddwyrain y Sir. Byddai arwain tai newydd i'r ardal hon yn helpu i wella dewis ac ansawdd tai. Fodd bynnag, mae rhannau o'r ardal hon wedi eu clustnodi fel bod yn amddifad o ran cyflogaeth a lefelau incwm ac felly mae'n bwysig sicrhau fod y CDLI yn sicrhau y gall pobl gael mynediad at y tai drwy ddarparu tai fforddiadwy.</p>	<p>STR1 Twf Strategol, STR2 Lleoliad Datblygiad, STR3 Safleoedd Strategol, STR4 Egwyyddorion Datblygiad a Dylunio Cynaliadwy, STR11 Darpariaeth Safleoedd Tai Cynaliadwy.</p>
------------------------------------	----------	--	---	---

Galluogi mwy o bobl i fyw yn annibynnol ac yn dda gartref			X	Fel yr uchod. Mae mynediad at wasanaethau hefyd yn allweddol yma, gan fod y rhan fwyaf o dai yn stoc bresennol. Fel y nodwyd uchod, mae mynediad at wasanaethau yn broblem benodol mewn ardaloedd gwledig a gellid gwaethygu hyn drwy arwain cyfleusterau newydd tuag at yr arfordir / ardaloedd trefol.	Fel yr uchod a Nodyn TAN 12 Dylunio a Chanllawiau ar Safleoedd a Dadansoddiad Cydestun yn cynnwys diogelwch cymunedol a darparu tai 'am oes'.
Gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal			X		
Sicrhau bod oedolion, pobl ifanc a phlant yn cael eu diogelu			X		
<b>Tlodi</b>					
	<b>Effaith</b>			<b>Disgrifio'r effaith a'r dystiolaeth</b>	<b>Camau Lliniaru</b>

<p><b>Pa effeithiau posib a gwirioneddol fydd y cais hwn yn ei gael ar:</b></p>	<p><b>Cadarn haol</b></p>	<p><b>Negyddol</b></p>	<p><b>Niwtral</b></p>	<p><b>Tystiolaeth – TAN 23 Datblygiad Economaidd, Uchelgais Economaidd Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, ‘A Strategy for Change’ 2012, NE. Strategaeth Ofodol Is Ranbarthol Gorllewin Swydd Caer / Cymru, Astudiaeth Adolygiad Tir Cyflogaeth Sir y Fflint a Wrecsam, Strategaeth Adfywio Sir y Fflint 2009 – 2020, Aseiad Senarios Twf Cyflogaeth Pellach.</b></p>	
---	---------------------------	------------------------	-----------------------	---	--

Lleihau tlodi tanwydd		X	<p>Darparu tai newydd, mwy effeithlon o ran ynni er mwyn helpu i leihau costau ynni a darparu tai fforddiadwy. Diffinnir tlodi tanwydd fel aelwyd sy'n gorfod gwario mwy na 10% o incwm ar yr holl danwydd sydd ei angen i gynhesu'r cartref yn ddigonol. Mae felly'n gysylltiedig ag incwm a chyflogaeth. Mae mapiau tlodi tanwydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos fod tlodi tanwydd yn tueddu i fod amlycaf ar hyd y llain arfordirol, er fod eithriadau i hyn. Gallai gwella mynediad at swyddi o safon hefyd helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy gynyddu cyfanswm incwm aelwyd.</p>	<p>STR1 Twf Strategol, STR2 Lleoliad Datblygiad, STR3 Safleoedd Strategol, STR11 Darparu Safleoedd Tai Cynaliadwy.</p>
-----------------------	--	---	--	--

<p>Gwella cyfleoedd cyflogaeth lleol</p>	<p>X</p>			<p>Bydd dyraniadau tir cyflogaeth a pholisiau yn y cynllun i annog twf economaidd yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd swyddi. Mae diweithdra wedi ei gydgrynhoi ar hyd yr arfordir mewn ardaloedd gyda darpariaeth tir cyflogaeth sylweddol (Glannau Dyfrdwy) sy'n awgrymu nad yw'r bobl sy'n byw yno o reidrwydd yn gallu cael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth. Gallai hyn fod oherwydd hygyrchedd neu lefelau sgillau. Gellid lliniaru hyn drwy gytundebau A106 lle mae angen hyfforddiant, prentisiaethau ayb. Gallai'r CDLI osod y gofyniad polisi ar gyfer hyn ar y cam adneuo manwl.</p>	<p>STR1 Twf Strategol, STR2 Lleoliad Datblygiad, STR3 Safleoedd Strategol, STR7 Datblygu Economaidd, Menter a Chyflogaeth. STR8 Argaeledd Tir Cyflogaeth, STR9 Trefi a Chanolfannau Gwasanaeth eraill.</p>
<p>Ehangu cyfleoedd hyffordddeaethau a phrentisiaethau</p>	<p>X</p>			<p>Er nad ydynt yn ddylanwad uniongyrchol bydd polisiau i annog twf economaidd yn galluogi cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddiant.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>



Diogelu pobl rhag tlodi	X			Bydd dyraniadau tir cyflogaeth a pholisiau yn y cynllun i annog twf economaidd yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd swyddi. Mynediad at swyddi, un ai o ganlyniad i sgiliau neu hygyrchedd corfforol (gweler uchod). Gallai arwain tai newydd i ardaloedd sydd eisoes yn profi tlodi o bosib waethygu problemau os na eir i'r afael â'r achosion dros y tlodi (mynediad at gyflogaeth / gwasanaethau).	Fel yr uchod.
Gwella cymwysterau a sgiliau	X			Mae'r Cynllun yn darparu tir ar gyfer datblygiad cyflogaeth newydd a pholisiau i annog datblygu economaidd. Fel yr uchod. Nid yw'n ddigon arwain datblygiad cyflogaeth newydd, mae ar bobl leol angen cael mynediad at y swyddi sydd wedi eu creu.	Fel yr uchod.
<b>Yr iaith Gymraeg</b>	<b>Effaith</b>			<b>Disgrifio'r effaith a'r dystiolaeth</b>	<b>Camau Iliniaru / Cynyddu effaith gadarnhaol</b>

	Cadarn haol	Negyddol	Niwtral	Tystiolaeth - Asesiad Lles Lleol Sir y Fflint 0217, TAN 20 Yr Iaith Gymraeg 2013, Cynllunio a'r Iaith Gymraeg 2005, Proffil Ieithyddol Gogledd Ddwyrain Cymru 2014	
<p><b>Pa effeithiau posib a gwirioneddol fydd y cais hwn yn ei gael ar:</b></p> <p>Peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		X		Bydd polisiau yn y Cynllun yn sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol mewn unrhyw ddyraniad defnydd tir Os ystyrir y bydd effaith negyddol ar yr iaith yna gellir rhoi mesurau lliniaru yn eu lle.	STR Gwasanaethau, Cyfleusterau a Seilwaith, STR10 Twristiaeth, Diwylliant a Hamdden
Bodloni Safonau'r Iaith Gymraeg	X			Yn ystod yr ymgynghori ar y CDLI darperir pob dogfen gyhoeddus yn ddwyieithog. Gellir gwneud unrhyw sylwadau yn Saesneg neu yn Gymraeg.	Fel yr uchod.



